tafod elái

Medi 2020

Rhif 350

Eisteddfodau

Fel arfer mae rhifyn mis Medi o Tafod Elái yn cynnwys newyddion a llwyddiannau o'r Eisteddfod Genedlaethol ond mae eleni wedi bod yn wahanol iawn.

Yn dilyn sbri EisteddfodT paratowyd gwledd o berfformiadau a sgyrsiau gan AmGen yr Eisteddfod Genedlaethol i lenwi bwlch mawr ar ddechrau mis Awst. Braf oedd gweld Josh Nadimi yn Llywydd y Dydd a llawer o'r ardal wedi cyfrannu at berfformiadau rhithiol yr Ŵyl.

Eisteddfod y Rhondda

Llongyfarchiadau arbennig i griw Aelwyd y Rhondda am baratoi gwledd arall wythnos olaf mis Awst yn Eisteddfod y Rhondda. Dros pum diwrnod cyflwynwyd unarddeg cystadleuaeth o safon, a nifer o'r enillwyr o'r ardal hon. Mae'r cyfan i'w weld ar dudalen youtube Eisteddfod y Rhondda.

Ar alwad y Corn Gwlad dyma Martin Huws yn sefyll yn ei gartref yn Ffynnon Taf i dderbyn Cadair Eisteddfod y Rhondda

Gŵyl Haf Merched y Wawr

Eleni roedd rhaid canslo Gŵyl Haf blynyddol Merched y Wawr ym Machynlleth. Serch hynny roedd cystadlaethau ysgrifenedig wedi cael eu hanfon i mewn ac fel y gwyddom bu Siân Sexton o gangen Tonysguboriau yn llwyddiannus yn Adran y Dysgwyr. Cyhoeddwyd rhai o'r canlyniadau ar Pnawn Da a dydd Gwener, 10 Gorffennaf cyhoeddodd y beirniad, Meleri Wyn James, mai enillydd Tlws Llenyddol Ann Lewis oedd Eluned Davies-Scott, Meisgyn. Llongyfarch-iadau i'r Prif Lenor Eluned. Dyma egluro cefndir ei stori -

Roeddwn yn teimlo dylwn gefnogi Merched y Wawr mewn rhyw ffordd yn ystod y cyfnod annisgwyl hwn ac ar ddechrau'r cyfyngiadau roeddwn wedi cael fy ysgwyd a fy nychryn gan y ffordd yr oedd y firws hwn yn gwaethygu ac yn effeithio'n gyflym ar ein bywydau. Fe'm gwnaed yn fwy ymwybodol o ba mor fregus yw ein bodolaeth ac na fyddwn, efallai, yn ymweld â bro fy mebyd fyth eto. Roeddwn hefyd, ar y pryd, yn rhoi trefn ar yr holl wybodaeth sydd gennyf am achau a hanes y teulu, llawer ohono wedi ei gasglu gan fy modryb ac wedi bod mewn hen gês dillad yn y stydi ers i fy mam farw pum mlynedd yn ôl. Felly dylanwadodd y rhain arnaf i ysgrifennu stori oedd yn rhyw fath o therapi ac yn fy helpu i ddod i delerau â'r sefyllfa bresennol. Mae'r rhan fwyaf o'r stori yn ffuglennol, ond gydag elfennau o wirionedd yn seiliedig ar fy mhlentyndod a storïau am y teulu a glywais gan fy mam. Oherwydd fy mod i'n falch iawn o ble dwi'n tarddu roedd rhaid sgwennu yn nhafodiaith unigryw Sir Drefaldwyn.

Adolygiad barnwrol yn gwrthod cynlluniau i adrefnu ysgolion

Cafodd cynlluniau dadleuol Cyngor Rhondda Cynon Taf i ad-drefnu ysgolion yn ardal Pontypridd eu gwrthod gan farnwr yn yr Uchel Lys.

Gofynodd mudiadau *Ein Plant Yn Gyntaf* a *Brwydro Dros Addysg Gymraeg yn Lleol* i'r Llys ystyried a oedd penderfyniad Cyngor Rhondda Cynon Taf i gau ysgolion, yn cynnwys Ysgol Pont Sion Norton wedi dilyn y rheolau perthnasol.

Roedd y Llys wedi derbyn fod fersiwn Cymraeg rheolau y ddeddf yn fwy eglur na'r rhai Saesneg.

Dyma'r Cynghorydd Heledd Fychan y egluro'r sefyllfa:-

Ers i'r cynlluniau gael eu cyflwyno ynglyn ag ad-drefnu ysgolion ym Mhontypridd, cafwyd gwrthwynebiad chwyrn yn lleol gan blant, pobl ifanc, rhieni, athrawon a'r gymuned ehangach.

Roedd y cynigion yn niferus ac yn cynnwys newidiadau i addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Roedd hyn yn cynnwys cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Sion Norton, a chreu Ysgol Gymraeg yn unig ar safle Heol y Celyn. Dywedodd Cyngor Rhondda Cynon Taf fod pob un o'r newidiadau yn ddibynnol ar ei gilydd a bod yn rhaid eu derbyn fel pecyn cyflawn.

Roedd yr ymgyrch yn wahanol i'r arfer, gan nad oedd ymgyrchwyr yn brwydro yn erbyn y bwriad i fynd ati i ad-drefnu neu gau ysgolion.

Parhad ar dudalen 3 >

Tafod Elái ar y Wê

Mae'r rhifyn yma yn cael ei ddosbarthu drwy ebost. Rhannwch gyda'ch ffrindiau. Danfonwch ymlaen i unrhyw un sy'n gallu, neu dysgu, siarad Cymraeg. Danfonwch ymlaen i holl aelodau eich cymdeithasau.

Gobeithiwn fynd yn ôl i'r arfer o argraffu Tafod Elái yn yr Hydref.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Hydref
i gyrraedd erbyn 25 Medi 2020

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.com

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

Tonteg

Llongyfarchiadau i Pens a Siân ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd merch fach i Sioned a Vas, Niki Emiliana, chwaer fach newydd i Efan a Ffion a chyfnither newydd i Elis, Gwen a Tomi. Digon i gadw taid a nain yn brysur! Pob dymuniad da iddyn nhw.

Dosbarthu yn Llantrisant

Mae Rhiannon Price am gael seibiant o'i gwaith yn dosbarthu Tafod Elái yn ardal Llantrisant. Mae Rhiannon wedi bod yn gefn i'r papur o'r cychwyn a diolchwn iddi am ei chyfraniad.

Bydd Margaret Caddell, Tonysguboriau, yn cymryd drosodd y dosbarthu pan fydd y papur nôl yn cael ei argraffu.

Mae Acapela, Pentyrch, yn cael ei wedd newid y tu fewn a thu allan yn ystod y cyfnod clo. Mae'r stiwdio yn pwyso am arian ychwanegol gan y Llywodraeth i'w gynnal ac mae gobeithion y bydd rhaglen lawn o weithgareddau y flwyddyn nesaf. Yn y cyfamser mae'r arlwy Pizzas i fynd adref yn boblogaidd iawn ar nosweithiau Iau, Gwener a Sadwrn. Hefyd mae gwersi offerynnau cerddorol yn dechrau ym mis Medi. - acapela.co.uk

Her Camau Mamau

Ar Fedi 5ed bydd criw o famau o Bontypridd yn cymryd rhan mewn her i gerdded 13 milltir ar hyd y Bannau er mwyn codi arian ar gyfer Cymdeithas Alzheimer.

Mae Lowri Mared Real, Nicola Richardson, Rachel Nicolls ac Eurgain Haf Thomas, yn griw o ffrindiau sydd â'u plant yn mynychu Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Sion Norton. Yn dilyn sgwrs wrth giatiau'r ysgol fe benderfynodd y pedair ffurfio 'Camau Mamau' i ysgogi eu hunain i fynd allan i gerdded, i gadw'n heini a chodi arian at achosion da.

Dyma fydd eu her gyntaf ac mae'r pedair wedi bod yn brysur yn ymarfer gan ddarganfod a mwynhau cerdded llwybrau godidog y fro. Maen nhw hefyd wedi bod yn ymrwymo eu teuluoedd i godi arian at yr achos a bu Lleucu ac Emrys a'u mam Lowri wrthi yn brysur yn pobi ac yna'n gwerthu eu cacennau i drigolion y stryd gan godi £78!

Eurgain a Lowri yn ymarfer

Meddai Eurgain Haf Thomas a welodd ei thaid yn dirywio dan afael Alzheimer dros gyfnod o ddeng mlynedd: "Mae cerdded yn llesol i iechyd y corff a'r meddwl. Fel mamau i blant ifanc rydan ni yn trio gwneud amser i ddod at ein gilydd bob hyn a hyn i fynd i gerdded a rhoi'r byd yn ei le. Er mwyn gosod nod i'n hunain rydan ni wedi ymrwymo i wneud yr her yma gan gymryd camau positif i helpu pobl, eu teuluoedd a'u gofalwyr sy'n cael eu heffeithio gan greulondeb Alzheimer a dementia."

Hyd yma mae tîm Camau Mamau wedi codi dros £900 ac os hoffech gyfrannu ewch i'r dudalen www.justgiving.com/team/camaumamau

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Priodas Aur
Llongyfarchiadau gwresog i Gill a Peter Griffiths ar ddathlu eu priodas aur ar ddechre mis Awst.

Criced
Er bod y tymor criced fwy neu lai wedi gorffen cyn dechrau eleni mae timau'r pentref wedi bod yn llwyddiannus iawn. Llwyddodd tîm criced y dynion i gyrraedd un ar bymtheg olaf cystadleuaeth Brydeinig "The National Village Competition". Yn anffodus colli fu eu hanes yn erbyn pentref North Perrott yng Ngwlad yr Haf.

Newydd gael ei sefydlu mae tîm y merched ac maent eisioes wedi bod yn llwyddiannus mewn cystadlaethau lleol yn erbyn Sain Ffagan a Radur. (Mae nifer o famau ifanc rhai o ddisgyblion Ysgol y Creigiau yn y llun).

Tafarn y Lewis
Croeso i'r pentref i Osian Long sydd bellach yn rheolwr ar dafarn y Lewis. Bu Osian unwaith yn gofalu am The Barn yn Llantrisant. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn Y Lewis.

Clwb Rygbi Pentyrch
Llongyfarchiadau i Gary Samuel, Creigiau, ar ei ethol yn Gadeirydd y Clwb. Mae nifer fawr o siaradwyr Cymraeg ar bwyllgor y clwb erbyn hyn yn cynnwys y Llywydd, Cadeirydd, Ysgrifennydd ac Hyfforddwr.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Laurian Beaudor perchennog Cocorico Patisserie yn Heol yr Eglwys Newydd, sydd newydd ddod i fyw i'r pentref, ar ennill cystadleuaeth *Bake Off: The Professionals* yn ddiweddar. Os bydd amgylchiadau'n caniatáu mae'n gobeithio cynnal dosbarthiadau o'i gartref yn y pentref yn y dyfodol.

Newid Ysgol, Newid Byd
Dymunwn yn dda i bawb o'r pentre sy'n symud o'r ysgol gynradd i'r uwchradd ac i'r bobl ifanc a fydd yn dechre ar gyfnod mewn coleg neu ar yrfa newydd yr hydref yma. Pob lwc i chi gyd.

Holi Newyddiadurwr Profiadol
Yvonne Evans fu'n holi Eifion Glyn ar Pnawn Da am sefyllfa'r wasg yng Nghymru.

Meddai Eifion Glyn, "Rôl allweddol newyddiaduraeth, yn fy marn, i ydy cadw golwg ar y bobol a'r sefydliadau sydd mewn grym. Bod yn wyliwr ar y tŵr. Mae hynny yn allweddol i unrhyw ddemocratiaeth iach. Ac fel mae pethau'n mynd ar hyn o bryd, mae hynny'n cael ei erydu, a dwi wir yn pryderu."

Ysgolion Pontypridd
Parhad o dudalen 1

Yn hytrach, roeddynt o'r farn bod diffygion yn y cynlluniau a gyflwynwyd gan y Cyngor ac roeddent yn galw am lawn ystyriaeth o opsiynau amgen.

Bu'n frwydr galed, arweiniodd at adolygiad barwnol. Roedd rhieni a disgyblion ar ben eu digon ddiwedd Gorffennaf pan ddyfarnodd Barnwr o'r Uchel Lys o'u plaid ar ddau gyfrif:
1) Y dylai'r penderfyniad i gau'r 6ed dosbarth yn Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Uwchradd Hawthorn fod wedi cael ei gyfeirio at Weinidogion Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo'n derfynol.
2) Bod y Cyngor wedi methu yn ei ddyletswydd i ystyried effaith cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Sion Norton ar yr iaith Gymraeg ac yn arbennig addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg – dadl a gefnogwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Yn bwysig, cadarnhaodd y barnwr hefyd y dylai cyfraith Cymru gael ei dehongli'n ddwyieithog, a bod gan destunau Cymraeg a Saesneg statws cyfartal. Roedd amddiffyniad y Cyngor yn gofyn i rywun anwybyddu'r testun Cymraeg, gan arwain y barnwr i ddatgan: "Nid wyf yn ystyried mai dyna'r agwedd gywir at ddeddfwriaeth sy'n cael ei phasio yng Nghymru".

Mae gan y dyfarniad hwn felly oblygiadau ehangach ar gyfer ad-drefnu ysgolion yng Nghymru, ynghyd â'r angen i ddehongli holl ddeddfwriaeth a gaiff ei basio yng Nghymru yn ddwyieithog. O ganlyniad, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi dweud y bydd yn ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru i'w gwneud yn ymwybodol o'r dyfarniad, gan alw arnynt i gryfhau sut y maent yn ystyried effaith eu penderfyniadau ar y Gymraeg.

Felly beth sydd nesaf o ran ysgolion ym Mhontypridd?

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn dal i ystyried y dyfarniad, ac mae ymgyrchwyr wedi galw am drafodaeth agored rhwng y gymuned a'r Cyngor ynglŷn â dyfodol addysg yn yr ardal. Roedd y cynigion amgen a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cynnwys safle gwahanol i'r gogledd o Bontypridd ar gyfer ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd a gwahanol ffyrdd o ad-drefnu addysg chweched dosbarth. Mae ymgyrchwyr nawr yn gobeithio bydd rhain yn cael eu hystyried gan y Cyngor.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Dymuniadau Gorau
Estynnwn ein dymuniadau gorau i Gwenno, merch Geraint a Caroline Rees, Penywaun, sydd wedi penderfynu ehangu ei gorwelion, ac wedi mynd i ddysgu yn Tansania am ddwy flynedd. Mae Gwenno'n anturus iawn a threuliodd flwyddyn ym myd addysg ym Mhatagonia rhyw flwyddyn neu ddwy yn ôl. Pob hwyl Gwenno a chadw mewn cysylltiad. Rwy'n siŵr fydd yna ddiddordeb yn dy anturiaethau gan ddarllenwyr Tafod Elái.

Diolch
Diolch o galon ar ran amryw o drigolion Efail Isaf i ddau o fechgyn ifanc y pentre. Bu Mabon Rhys a Steffan West yn dosbarthu papur dyddiol yn rheolaidd yn y pentre am rai misoedd. Un o drigolion y pentref, Tony Ackerman gyflwynodd y syniad ar ddechre'r cyfnod clo ac mae ein diolch iddo yntau hefyd. Yn anffodus bydd Mabon a Steffan yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi a daw eu gwasanaeth i ben. Gwerthfawrogwn yn fawr eich ymdrech fechgyn, o godi'n blygeiniol pob bore. Noder y bydd modd parhau â'r gwasanaeth drwy ffonio Siop Barretts, Tonteg ar 01443 203873 os dymunwch dderbyn eich papur yn ddyddiol.

Brysiwch Wella
Mae amryw o drigolion y pentref wedi dioddef anhwyldeb ac afiechyd yn ystod y misoedd yr haf ac amryw wedi treulio cyfnodau byr yn yr ysbyty - profiad digon gofidus, mae'n siŵr gyda'r feirws yn cylchdroi o'n cwmpas.

Dymunwn wellhad buan i Ethin Henry, Nant y Felin a dderbyniodd safonwr i'r galon (pace maker) yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant.

Treuliodd Lois, merch Celt ac Enfys Hughes Nant y Felin gyfnod yn yr ysbyty a da deall ei bod yn well erbyn hyn. Dymunwn yn dda i Judith Thomas, Parc Nant Celyn sydd wedi dioddef anhwylder yn ystod mis Awst a braf cael cofnodi ei bod hithau'n teimlo'n well.

Pen-blwydd Arbennig
Llongyfarchiadau i Bethan Emanuel, Heol y Parc ar ddathlu pen -blwydd arbennig ar Awst 21ain.

TGAU
Llongyfarchiadau i Bethan Lloyd a Jack Karadogan ar eu llwyddiant yn yr arholiadau TGAU.

Y TABERNACL
Brysiwch Wella
Dymunwn yn dda i Carol Williams sydd heb fod yn dda ei hiechyd ers dechre'r flwyddyn.

Yr un yw ein dymuniadau i Keith Rowlands a dreuliodd gyfnod yn yr ysbyty yn Llantrisant ddechrau mis Gorffennaf. Da cofnodi ei fod lawer yn well erbyn hyn. Dyma neges oedi wrth Keith -

Dymuna Keith Rowlands ddiolch o galon i'r llu o gyfeillion am eu cyfeillgarwch drwy anfon cyfarchion a galwadau ffôn yn ystod y cyfnod bu'n derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty ac ar ôl dychwelyd adref.

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad i Rhian a Wyn Jones, Tonteg yn eu profedigaeth o golli mam Rhian yng Nghricieth yn ystod yr Haf. Roedd wedi bod yn fregus ei hiechyd ers cyfnod hir.

Cerdd Glenys
Mae'n wir na chawsom fwynhau'r Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron eleni, ond yn wir fe gawsom wledd ar y Radio a'r Teledu o'r 'Steddfod Amgen. Ymhlith yr arlwy o gyfraniadau creadigol gan ein Prifeirdd oedd y gerdd "Trysorau" gan Glenys M. Roberts, "Ein Glenys ni yn y Tabernacl". Eglurodd Glenys, cyn darllen y gerdd, nad cerdd ar gyfer unrhyw gystadleuaeth a luniodd, ond yn hytrach ei bod yn gerdd bersonol i'w hwyrion a'i hwyres. Llongyfarchiadau mawr iti Glenys am lunio cerdd mor gofiadwy.

"Gêm Gartre"
Braf oedd gweld un o'n haelodau yn cystadlu yn y cwis "Gêm Gartre" ar y teledu. Cwis chwaraeon yw "Gêm Gartre" a'r cwis feistr yw Owain Gwynedd. Ddiwedd mis Gorffennaf mi wnaeth Iwan Rowlands o'r Creigiau ennill y cwis gan gyflwyno'r wobr o £300 i Mind Cymru ac i Ysgol yn Lesotho.

Y Banc Bwyd
Er nad yw wedi bod yn bosibl cyfrannu tuag at y Banc Bwyd lleol yn y ffordd arferol fe drosglwyddodd Arwyn Jones, Ein Trysorydd £1605 pellach i'r Banc bwyd ddechrau Awst. Cyfanswm cyfraniad yr eglwys i'r Banc Bwyd mor belled yw £3405 yn ystod y cyfnod clo. Mae'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol am ddiolch o galon i bawb a fu mor hael eu cyfraniadau.

Tlws Merched y Wawr i Eluned
Llongyfarchiadau gwresog i Eluned Davies-Scott, Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Tabernacl ar ennill Tlws Llenyddol Merched y Wawr. Y dasg oedd ysgrifennu ar y testun "Bro Fy Mebyd" ac mi wnaeth Eluned gofnodi hanes ei theulu a'i bro genedigol yn Sir Drefaldwyn, a hynny yn nhafodiaith unigryw y Sir. Cafodd ganmoliaeth hael gan y beirniad, Meleri Wyn James am safon uchel ei gwaith. Mae Eluned yn aelod o Gangen Merched y wawr Tonysguboriau. Efallai y caiff Merched y

Parhad ar dudalen 5 >

Efail Isaf (Parhad o dudalen 4)

Tabernacl gyfle rywdro i glywed hanes teulu a bro genedigol Eluned.

Ffrind da iawn i mi, ac i amryw o'r ardal hon gipiodd yr ail wobr yn y gystadleuaeth hefyd, sef Anna Jones a fu'n athrawes yn Ysgol Gynradd Garth Olwg ac yn Brifathrawes Ysgol Gymraeg Abercynon cyn iddi ddychwelyd i'w bro mebyd yn Abersoch.

Llyfryn Dathlu'r 150

Roedd 2020 i fod yn flwyddyn o ddathlu i ni yn y Tabernacl, ond yn anffodus fel pob dim arall bu'n rhaid rhoi'r gorau i bob trefniant. Daeth Emlyn Davies i'r adwy a chyflwyno perl o gyfrol, "Dathlu'r 150" ac mae'n debyg fod pob aelod wedi derbyn copi o'r gyfrol erbyn hyn. Diolch i'r gwirfoddolwyr am ddosbarthu'r copïau yn y gwahanol ardaloedd, ond i Emlyn y mae'r diolch pennaf am greu cyfrol ddiddorol dros ben.

Tabernacl, Efail Isaf Gorffennaf 2020

DATHLU'R 150

DATHLU BETH?

Dolen y tab

Diolch eto i Gwilym ac Eleri Huws am gynhyrchu'r cylchlythyr wythnosol "Dolen y Tab" sydd yn rhannu newyddion teuluol a chyhoeddiadau i'r aelodau yn ystod y cyfnod pan fo drysau'r Tabernacl ar gau.

Llwyddodd Mike West, un o aelodau mwyaf creadigol y capel, i fanteisio'n llawn yn ddiweddar ar y cyfle a roddwyd gan y cyfnod clo i drawsffurfio'r Ganolfan yn stiwdio gelf dros-dro; roedd hyn yn ei alluogi i gwblhau cyfres o furluniau ardderchog fel rhan o gynllun gardd newydd yn Uned Arbennig Ysgol Glantaf. Bellach mae'r murluniau wedi eu cludo o'r Ganolfan i'r ysgol, ond serch hynny bydd modd i bob un ohonom werthfawrogi gwaith cain Mike yn llawn pan gânt eu dangos yn un o raglenni'r gyfres deledu 'Project Pum Mil' a ddarlledir ar S4C ym mis Tachwedd neu Ragfyr. Ymhlith y rhai gaiff werthfawrogi'r murluniau, wrth gwrs, fydd Iwan, mab Lyn a Mike, sy'n mynychu'r Uned yn Ysgol Glantaf.

CLWB GWAWR CROTESI CREIGIAU A'R CYLCH 2020-2021

(llun gan henfenywfach-Instagram)

Ymunwch gyda'r Crotesi i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma gyfle i hyrwyddo Cymreictod yr ardal a chael hwyl wrth wneud hynny!

Rydym yn cwrdd tua unwaith y mis ac yn cael cyfle i gymdeithasu, dysgu sgiliau newydd, bwyta ac yfed, mwynhau'r awyr iach a rhoi'r byd yn ei le……..!

Rydym wedi paratoi rhaglen ddiddorol ac amrywiol am y flwyddyn (yn cynnwys gweithgareddau rhithiol dros Zoom.)

Am fwy o fanylion, cysylltwch gydag Ann Angell ar 07811 791597 / e bostiwch annangell14@yahoo.com

Tarian Cymru

Cefnogwch yr ymgyrch codi arian i roi offer gwarchodol i weithwyr iechyd a gofal yng Nghymru

https://www.gofundme.com/f/tariancymru

CROESO CYNNES I BAWB

(COVID19 : byddwn yn dilyn canllawiau Merched y Wawr a Llywodraeth Cymru)

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Ein pobol ifanc! Ein dyfodol . . .
Bu hon yn flwyddyn heb ei thebyg. Afraid dweud. Cafodd corona effaith andwyol ar bawb - o'r hŷn a gwydn i'r ifanc. di-bryder fel arfer. I'r rhai hynny oedd wedi paratoi ar gyfer arholiadau pwysig - na fu - roedd yr aros a'r ail-ystyried yn artaith mae'n siwr. Ond serch pob anhawster mae gan lawer o ddisgyblion Plasmawr le i ddathlu! Llongyfarchiadau mawr ar ganlyniadau gwych a diolch i Elina am gywain yr holl wybodaeth yma ynghŷd. Dymunwn yn dda i'r canlynol wrth iddynt barhau â'u haddysg ar hyd a lled Prydain ac mewn meysydd amrywiol iawn:
Elina Thomas-Jones sy'n paratoi i fynd i Brifysgol Plymouth i astudio Anthropoleg
Betsan Tudur - Celf a Dylunio - Coleg y Cymoedd
Gwen Roberts - Seicoleg Addysg - Prifysgol Abertawe
Cerys Henderson - Seicoleg - Prifysgol Birmingham
Martha Stallard - Chwaraeon a Gwyddoniaeth Addysg - Prifysgol Abertawe
Hana Macdonald - Cwrs Rasio Ceffylau - Newmarket
Steffan Rowlands - Meddygaeth - Prifysgol Southampton
Aled Robins - Rheolaeth Busnes - Prifysgol Reading
Anya Goode - Coleg y Fro - Trin Gwallt a Harddwch
Aron Jones - Datblygiad Rhyngwladol - Caeredin
Gethin Rosser - heb benderfynu eto
Ble bynnag y boch - ble bynnag yr ewch - mwynhewch! Gwnewch bach o waith! Cadwch yn saff! Cadwch mewn cysylltiad! Os gwnaethom anghofio rhywun - sori - dewch nôl atom gyda'r wybodaeth!

Cyfarchion pen-blwydd Hilary!
Dathlodd Mrs Hilary Lewis ei phen-blwydd yn 91 oed yn ystod mis Awst. Pen-blwydd hapus iawn i chi! Eleni roedd Hilary yn dathlu gyda ei ffrindiau yn Regency House - cartref gofal ar Mill Road yng Nghaerdydd. Pan fydd gofid yr hen govid yma drosodd mae'n siwr y byddai Hilary yn gwerthfawrogi ymweliad yn fawr.

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlaf dwysaf i Gavin, Hawys a'r plant ar golli Prosina ddiwedd Awst. Gwraig, Mam a Mam-gu dawel, uchel ei pharch a fu farw wedi cystudd byr. Yn meddwl amdanoch.

Gwellhad llwyr a buan, Robin!
Yn ystod y mis derbyniodd Robin Griffith lawdriniaeth ar y croen. Bu'n ddewr iawn ac anfonwn ein dymuniadau gorau ato.

Mwy o fyfyrwyr disglair
Bydd y ddau frawd Aron a Steffan Môn yn cychwyn ar gyrsiau Meistr yr hydref hwn a dymunwn yn dda iddynt yn eu hastudiaethau. Maes arbenigedd Steffan ydy Cyfrifiadureg - a bydd yn dilyn cwrs Meistr ym Mhrifysgol Abertawe, tra bydd Aron yn teithio i Gaeredin i barhau efo'i ymchwil ym myd Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

Priodas Ruddem!
Ar Awst yr ail, 1980 yng Nghapel yr Alltwen, priodwyd Helen a Gordon Middleton. Gweinyddwyd y briodas gan y Parchedig Ddoctor Vivian Jones oedd ar y pryd yn gwasanaethu fel Uwch Weinidog mewn eglwys yn Minneapolis, Minnesota, UDA! Dychwelodd i Gymru am gyfnod byr yr haf hwnnw i fynychu yr Eisteddfod Genedlaethol ac i briodi Helen a Gordon. Llongyfarchiadau mawr eich dau a phob bendith ar y dathlu!

Llongyfarchiadau mawr, Hanna!
Enillodd Hanna Davies radd dosbarth cyntaf yn y Gwyddorau Biofeddygol o Brifysgol Southampton yr haf yma. Yn anffodus ni fydd seremoni graddio eleni - blwyddyn nesa gobeithio. Bellach mae Sara yn gweithio fel rhan o dîm yn y theatr yn ysbyty Southampton. Pob dymuniad da i ti yn dy swydd newydd.

Cofio'r diwrnodau braf . . .?
. . . wel, toc ar ôl i'r tywydd droi'n go hydrefol gwnaeth dau deulu rannu eu gerddi hyfryd gyda thrigolion yr ardal yn rhan o gynllun Gerddi Agored yr NGS, ar bnawn Sul yr unfed ar bymtheg o Awst. Pleser oedd cael ymweld â gardd Leslie yn Maes y Nant eleni eto a gerddi John a Richard yn Waunwyllt, Heol Pantygored. Mae gardd John a Richard wedi ehangu'n sylweddol bellach a werth ei gweld! Mae'r gwaith sy wedi ei gyflawni yn yr 'ardd newydd' yn anhygoel mewn cwta chwe mis! Llongyfarchiadau mawr! Serch y tywydd, serch y cofid daeth nifer dda heibio ac fe godwyd dros fil o bunnau at elusennau lleol yn sgîl gwerthiant planhigion a thâl ymweld. Diolch i Alan Harvey yn ogystal am gynnig planhigion i'w gwerthu ar y dydd.

Cant a mwy i Dan!
Cafodd Dan Angell ddiwrnod i'w gofio ar y Rec, pnawn Sul y pedwerydd ar bymtheg o Orffennaf! Mewn gêm gyffrous rhwng tîm criced Creigiau a thîm Barri (Gorllewin) fe sgoriodd Dan ei GANT cynta rioed! Cant a mwy a dweud y gwir - roedd e'n 106 heb fod allan! Yn wicedwr trwy hanner cynta'r gêm trodd at fatio llwyddiannus iawn yn yr ail hanner. Diolch i Ann A. am fy ngoleuo am y gêm griced! Dal di ati Dan! Enw i'w wylio i'r dyfodol ac yntau'n dal yn fyfyriwr ifanc.

Dan Angell gyda Martin Powell (sydd wedi ei hyfforddi droeon dros y blynyddoedd) ar ôl iddo gyrraedd ei ganrif cyntaf ar 19/7/2020 ar y Rec yng Nghreigiau

Pen-blwydd Arbennig
Llongyfarchiadau i Colin Williams, Llys Gwynno, ar ddathlu pen-blwydd arbennig ym mis Awst a chael cyfle i chwarae golff yn y Belfry.

Neges Josh Nadimi i'r Ŵyl AmGen

Dwi'n hynod o falch i allu cymryd rhan yn yr Wŷl AmGen hon ac yn edrych ymlaen i rannu fy mhrofiadau fel Cymro o gefndir cymysg ac sy'n gweithio yn yr NHS, ac i ddathlu'r hyn sy'n cyfrannu at greu diwylliant amrywiol a chyfoethog.

Fy enw i yw Joshua Nadimi. Dwi'n 28 mlwydd oed, ac yn ddoctor sy'n byw yng Nghaerdydd. Dwi'n wreiddiol o Lantrisant yn Rhondda Cynon Taf ac fel dywedais i, rwy'n dod o gefndir cymysg o ran fy hil.

Mae Dad yn dod o Iran ac fe ddaeth yma fel myfyriwr yn y 1980au, a nawr yn gweithio fel Peiriannydd Electronig. Mae Mam yn dod o Aberporth, Ceredigion, ac yn athrawes yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail.

Mae gen i chwaer iau hefyd, sydd wedi cael ei mabwysiadu o China, mae hi nawr yn 15 mlwydd oed. Gallech chi ddweud bod fy nheulu i yn enghraifft ardderchog o deulu amlddiwylliannol, ac mae hyn yn destun balchder i mi!

Fel plentyn, roedd yn bwysig iawn i mi ddathlu fy nghefndir a fy ngwreiddiau yn y dwyrain-canol. Siaradais Farsi gyda fy nhad a fy nheulu o Iran, ac wedyn roedd hi'n bleser hefyd i siarad Cymraeg ac i gael addysg trwy gyfrwng y Gymraeg tan i mi fynd i'r Brifysgol. Roedd yn ddiddorol hefyd i ddysgu am wreiddiau fy chwaer a dathlu traddodiadau o China.

Fe es i i Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant ac wedyn es i 'mlaen i Ysgol Gyfun Llanhari, ac yno fe ges i fy addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a chael yr anogaeth i fod yn uchelgeisiol a hynny er mwyn ceisio gwireddu fy nyhead i fod yn feddyg.

Ar ôl gadael Ysgol Gyfun Llanhari, es i astudio meddygaeth ym Mhrifysgol Lerpwl am bum mlynedd a penderfynais i aros yn Lloegr am dair blynedd ychwanegol er mwyn ymarfer meddygaeth ar ôl graddio.

Des i'n ôl i Gymru i ddechrau ar fy hyfforddiant craidd fel llawfeddyg a nawr rwy'n gweithio i fod yn arbenigwr mewn llawfeddygaeth trawma ac orthopaedeg. Rydw i newydd gael fy mhenodi fel Cymrawd Trawma yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

Roedd hi'n ddiddorol iawn i weld, yn ystod y cyfnod pan oedd fy chwaer yn mynd trwy'r ysgol gynradd, faint o amrywiaeth oedd ymhlith y plant bellach sy'n mynychu ysgolion Cymraeg, o safbwynt cefndir a hil. Mae hyn yn profi nad oes yna un math o Gymro neu Gymraes rhagor ac rydw i, fel Cymro amlddiwylliannol, ac o deulu cymysg, yn falch iawn bod ein cymuned ni yn datblygu ac yn cael ei chyfoethogi fel hyn.

Defnyddio Gwasanaeth Llyfrgelloedd RhCT o'ch cartref

O lawrlwytho llyfrau, llyfrau llafar digidol a llyfrau comics i edrych ar archifau lluniau a dysgu iaith newydd, mae modd i chi gael gafael ar nifer o adnoddau AM DDIM trwy ddefnyddio Gwasanaeth Llyfrgelloedd RhCT o'ch cartref.

Oherwydd y Coronafeirws, mae pob llyfrgell yn y Fwrdeistref Sirol ar gau ac mae gwasanaeth y llyfrgelloedd symudol wedi'i ohirio, a hynny yn unol â chyngor iechyd y cyhoedd. Serch hynny, mae

modd i drigolion fwynhau ystod o gynnwys o hyd trwy gyrchu ein hadnoddau llyfrgell ar-lein yma https://wales.ent.sirsidynix.net.uk/client/cy_GB/rct_cy/.

Yn ddiweddar, mae'r gwasanaeth wedi ehangu'r ystod o lyfrau y mae modd eu lawrlwytho sydd ar gael, ac mae llu o adnoddau eraill ar gael ar-lein, gan gynnwys:

- Borrowbox – e-lyfrau a llyfrau llafar digidol
- Comics Plus: Fersiwn i Lyfrgelloedd
- Zinio – cylchgronau digidol
- Gwasanaeth Transparent Languages Online – dysgu iaith trwy becynnau ar-lein
- Gwasanaeth Ar-lein Credo Reference
- Theory Test Pro
- Casgliad Cylchgronau Digidol – dewis o dros 300 o gylchgronau.
- Llwybrau Treftadaeth Llyfrgelloedd RhCT
- Archif Luniau Llyfrgelloedd RhCT

Er mwyn cyrchu'r adnoddau yma, dylech chi glicio ar y ddolen 'Ymuno â'r Llyfrgell' ar y dudalen we, a dilyn y cyfarwyddiadau i gofrestru. Byddwch yn cael rhif llyfrgell a fydd yn eich caniatáu i gofrestru i ddefnyddio'r ystod o adnoddau.

Yn y cyfamser, mae ein carfan Llyfrgelloedd yn parhau i ymgysylltu â'n trigolion ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys defnyddio ein casgliadau digidol a'n cystadleuaeth flodeugerdd sydd ar agor o hyd. Dewch o hyd i'n tudalen ar Facebook trwy chwilio 'Llyfrgelloedd RhCT'.

Agor Pont Newydd ym Mhontypridd

Agorwyd y bont fydd yn darparu cyswllt newydd i gerddwyr rhwng Llys Cadwyn a Pharc Coffa Ynysangharad ddydd Sadwrn, 15 Awst.

Er gwaethaf yr heriau sylweddol a ddaeth yn sgil storm Dennis ym mis Chwefror, ac yna argyfwng y Coronafeirws ym mis Mawrth, mae contractwr y Cyngor, Knights Brown, wedi gwneud cynnydd da o ran adeiladu'r bont yn ystod y misoedd diwethaf. Ers i'r contractwr ddychwelyd i weithio ar y safle yng nghanol mis Mai ar ôl saib byr oherwydd y pandemig, mae'r strwythur wedi'i osod uwchlaw'r afon Taf.

Bwriad y bont newydd yw cynyddu mynediad i gerddwyr rhwng canol y dref a Pharc Ynysangharad drwy sefydlu trydedd fynedfa i'r parc. Mae un o'r ddwy fynedfa bresennol, sef y bont wrth yr hen siop Marks and Spencer, ar gau ar hyn o bryd oherwydd difrod yn sgil storm. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei gynllun i'w hailagor – ynghyd â Lido Cenedlaethol Cymru, Lido Ponty – erbyn gwanwyn 2021.

Mae'r Cyngor wedi elwa ar £800,000 o arian o raglen buddsoddi Trawsnewid Trefi: cymorth i wella canol trefi Llywodraeth Cymru i adeiladu'r bont newydd.

Mae'r bont ar agor yn ystod oriau agor Parc Coffa Ynysangharad bob dydd. Yn y lle cyntaf, bydd gatiau dros dro yn eu lle bob ochr i'r bont – a bydd gatiau parhaol yn cael eu gosod yn eu lle yn y dyfodol agos. Mae'n ofynnol hefyd i feicwyr ddod oddi ar eu beiciau i ddefnyddio'r bont oherwydd y gofod cyfyngedig, ac i sicrhau diogelwch defnyddwyr eraill y bont.

Curo'r Corona'n Coginio

Eluned Davies-Scott

A oes potel o hwn yn llechu yng nghwpwrdd eich cegin?

Mae Nigela (Lawson), Yotam (Ottolenghi), Bryn (Williams), Heston (Blumental), Rick (Stein), Jamie (Oliver), Raymond(Blanc), Michel (Roux Jnr), Nigel (Slater) a phob cogydd enwog arall credaf â photel o'r hylif yma yn eu ceginau ac mae mor enwog â'r cogyddion. Mae hyd yn oed wedi cael Gwarant Frenhinol yn 1904 a hebddo ni fyddai'r ddiod Mari Waedlyd yn bodoli.

Hwn yw'r saws o Gaerwrangon sy'n hysbys i ni yn ôl enw'r cwmni sy'n ei gynhyrchu a'i label oren eiconig - sef saws Lea & Perrins.

Os fuoch yn gwylied rhaglen o'r gyfres "*Inside Britain's Food Factories'* ar ITV yn ddiweddar fe fyddwch yn gwybod am hanes diddorol y saws hwn.

Mae'n cael ei gynhyrchu yn yr un fan ers ei lansiad yn 1837. Yn ôl y stori, gofynnodd Yr Arglwydd Marcus Sandys i ddau gemegydd greu saws tebyg i'r un oedd wedi'i flasu pan oedd yn gweithio i Gwmni Dwyrain India yn Bengal. Roedd yr arbrawf yn drychineb ac fe roddwyd y jariau pridd ohono allan o'r golwg mewn seler. Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach wrth glirio'r stordy daeth y ddau o hyd i'r jariau a darganfyddwyd fod y saws wedi eplesu ac aeddfedu i fod yn flasadwy. Aeth y ddau gemegydd, John Wheeley Lea a William Perrins, ati i rannu eu darganfyddiad gyda ffrindiau a theulu a chanfod eu bod hwythau hefyd yn hoffi'r blas. Fe werthwyd y poteli cyntaf i'r cyhoedd yn 1837 a chodwyd y ffatri, sy'n parhau i gael ei ddefnyddio, yn 1897. Erbyn hyn mae'r saws yn cael ei allforio i dros 130 gwlad ac fe'i defnyddir mewn ystod eang o fwydydd.

Yn ôl yr hanesydd bwyd Alan Davidson mae'r saws unigryw hwn wedi cael ei baru â saws soy yn Siapan a China am ei fod yn cyfannu i'r blas a elwir yn '*umami'* sy'n bwysig ym mwydydd y ddwy wlad. Erbyn hyn rydym ninnau yn gyfarwydd â umami fel y 5ed blas sylfaenol.

Nid dyma'r saws cyntaf wedi'i eplesu i gael ei fwynhau. Roedd saws o'r enw '*garum*' yn cael ei ddefnyddio yn ystod cyfnod yr Ymerodraeth Rufeinig a sawsus gyda blas tebyg ar gael yn Ewrop yn 17eg ganrif. Beth sydd gan y rhai'n sy'n gyffredin â Lea and Perrins? - brwyniaid (anchovies) wedi'u heplesu.

Nid yw'r rysáit ar gyfer saws Lea & Perrins wedi newid o gwbl ac mae peth ohono yn parhau yn gyfrinach. Mae'r broses o gynhyrchu potel o'r saws yn cymryd i fyny at dair blynedd. Mae winwns coch o Brydain a garlleg cyfan o Sbaen yn cael eu eplesu gyda sensing a finegr mewn drymiau wedi'u selio am tua 18 mis. Ar yr un pryd mae'r brwyniaid cyfan wedi'u haenu â halen yn cael eu gadael mewn bareli am dair blynedd i echdynnu'r olew a'r blasau. Yn yr hen amser roedd y cwmni yn cyflogi '*nockers and rollers'* sef pobl i rolio a tharo'r bareli pob wythnos i helpu'r broses hon. Gallwch ddychmygu'r arogl cryf a allyrrir gan y pysgod ar ddiwedd y cam hwn!

Y broses nesaf yw ychwanegu dŵr, tamarind (ffrwyth o goeden sy'n tyfu yn y trofannau, wedi ei wneud yn fwydion melys) a siwgr a gadael y cyfan am 6 wythnos arall ac yna ychwanegu triagl (molasses), sbeisys a mwy o ddŵr cyn straenio'r hylif, ei basteureiddio a'i botelu.

Mae'r defnydd o'r saws yn eang iawn ond ni allir ei ddefnyddio ar gyfer bwydydd llysieuol o achos y brwyniaid ynddo. Mae dewisiadau amgen ar gael a rysetiau ar gyfer gwneud saws tebyg eich hunain o finegr, triog, saws soi, sudd oren, siwgr, pwdr garlleg a sbeisys fel sinsir, pupur du, sinamon a chlofs.

Gan ei fod yn ddwys iawn mae'r saws yn cael ei ddefnyddio yn gynnil gyda chynhwysion eraill yn aml. Mae'n boblogaidd iawn mewn rysetiau marinadau ar gyfer cig, dofednod a physgod a hefyd ar gyfer sawsiau barbiciw.

Mae Jamie yn ei ddefnyddio gyda mwstard Ffrengig, rosmari ac olew olewydd ar gyfer marinad. Mae rysetiau ganddo hefyd gyda bresych, gydag asbaragws a madarch ar dost, ffa pob cartref a Mac a chaws sy'n defnyddio Lea & Perrins.

Mae'n ymddangos mewn sawl rysáit ar gyfer saws Marie Rose (Bryn, Heston a Michel), yn dorth briwgig Nigella a stroganoff Mary Berry. Mae'r enwog 'Welsh rarebit' angen sawl diferyn ac mae Nigella yn ei gynnwys mewn rysáit ar gyfer tost Ffrengig sawrus.

Defnyddir gyda blasau eraill mewn caserolau a stiwiau cig eidion, mewn rysetiau pei y bugail gan Mary a Nigel ac yn rysáit Heston am Chilli Con Carne. Mae Rick yn ei gynnwys mewn pei cig eidion, Guiness ac wystrys a gydag arennau mewn 'Devilled Kidneys'.

Mae cynhwysion melys yn cyd-fynd â'r saws e.e. jam bricyll, siwgr brown a hefyd cynhwysion eraill a blas cryf fel saws Tabasco, pupur cayenne.

Dwi, fel Nigel Slater yn ei ddefnyddio'n gynnil mewn grefi i weini gyda chig eidion ac mae gen i rysáit fy hunan ar gyfer saws barbiciw sy'n syml iawn ac yn defnyddio cynhwysion sydd ar gael yn y gegin.

O ran diddordeb nid y saws hwn yw'r unig gynhwysyn sydd â hanes o'r un rhanbarth. Mae peli mwstard o Tewkesbury yn tarddu o'r 16eg ganrif ac ar gael erbyn hyn mewn jariau o gwmni yn Swydd Gaerloyw – dyna stori am ddiwrnod arall !

Gyda halen Malden, Picalili, Marmite, mwstard Coleman's, saws HP a saws coch Heinz mae'r condiment hwn wedi sefyll prawf amser ac yn parhau i fod yn gynhwysyn sy'n debygol o lechu yng nghornel ein cwpwrdd bwyd.

<u>Saws Barbeciw</u>

1 nionyn wedi ei dorri'n fân
25g menyn
2 llwy fwrdd siwgr brown tywyll
1 llwy fwrdd piwre tomato
2 lwy fwrdd sôs coch
2 lwy fwrdd Lea & Perrins
1 llwy fwrdd finegr gwin coch
½ llwy de o fwstard Saesneg (powdr)
Ychydig ddiferion o saws Tabasco
200ml dŵr

Ffrio'r nionyn yn y menyn hyd nes mae'n feddal ond dim yn frown. Cymysgu gweddill y cynhwysion gyda'i gilydd a'u hychwanegu i'r nionyn. Mudferwi'r saws am tua 20 munud gan ychwanegu mwy o ddŵr os fydd angen.

Bethlehem
Gwaelod-y-garth

Pan oeddwn yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd, yn nechrau'r '70au, mi fyddwn yn derbyn llythyr wythnosol gan fy nhad.

Ynddo byddwn yn cael hanes y teulu, hanes y tywydd, hanes y pentref, ac hefyd hanes y capel lle 'roedd yn Flaenor ac yn Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau.
Ac yn ddiffael, cyn diwedd y tair neu bedair tudalen o bapur Basildon Bond lliw hufen, byddai'n holi a fûm i mewn oedfa yn ystod yr wythnos a aeth heibio.

Byddwn weithiau yn gallu ateb yn gadarnhaol, gan y byddai Capel y Crwys, yn ei safle blaenorol, am ba bynnag reswm, yn tynnu myfyrwyr i'r galeri ar gyfer oedfa'r hwyr. Roedd yna ganu da yno, oedd, ambell i bregeth hir hefyd, ond roedd yn fwy na dim yn fan cyfarfod cyfleus ar nos Sul i fechgyn a merched o'r gwahanol golegau ac o wahanol rannau o Gymru.

Petae 'nhad yn anfon llythyr i mi heddiw, ac yn gofyn yr un cwestiwn i mi am "fynd i'r capel", mi wn y byddai'r ddau ohonom ar dir go sicr yn ein atebion, ac yn wir yn gorfod cydnabod na fu'r naill na'r llall ohonom yn agos at y fath le ers canol mis Mawrth.

Ac fe wyddom i gyd paham wrth reswm.

Ar Sul y 15fed o Fawrth 2020 y cynhaliwyd yr oedfa ddiwethaf ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, a dyna'r darlun tebygol mewn llawer llan arall ar draws ac ar led Cymru.

Oedfa dan arweiniad ein cyn-weinidog, y Parchedig R Alun Evans, a gynhaliwyd bryd hynny, ac fe gofiaf pa mor chwithig oedd y cyffyrddiad penelin, yn hytrach na'r ysgwyd llaw arferol, wrth gyfarch ein gilydd yn y set fawr cyn dechrau gwasanaeth.

Fedrai yn fy myw gofio testun y bregeth a gafwyd ar y bore Sul hwnnw, a brysiaf i ddweud mai diffyg ar fy nghof i yn hytrach nag ar y neges sydd i gyfrif am hynny!

Ond mi wn sŵn pa emynau a fu'n diasbedain rhwng y muriau yn ystod yr orig a fuom yno.

Eto prysuraf i ddweud mai nid oherwydd fy nirnadaeth o gerddoriaeth nac emynyddiaeth y mae hynny, ond oherwydd bod y rhifau perthnasol yn weladwy ar y mur tu cefn i'r pwlpud o hyd, yn awyddus ddisgwyl i'r organydd, ef neu hi, i gyflwyno cyfres wahanol o emynau ar gyfer rhyw Sul rhywbryd yn y dyfodol.

Emyn Ifor Rees (Caneuon Ffydd Rhif 20 – "*Athro da, ar ddechrau'r dydd*"), a fu'n aelod ffyddlon, ac a fu a gofal dros dro mewn cyfnodau di-weinidog yma ym Methlehem, oedd ar dop y rhestr.

Ac mae neges yr emyn arbennig yma (yr unig un o'i eiddo yn Caneuon Ffydd) yn hynod o berthnasol wrth i'r plant a'r athrawon ymroi i ail-afael yn eu dyletswyddau yn yr ysgol ym mis Medi wedi cyfnod maith dan glo.

Gyda llaw, yn ôl y wybodaeth sydd ar y we, Sgotyn, nid Cymro oedd Ifor Rees! Wel yn Glasgow y'i ganed, a'i dad bryd hynny'n gweithio fel saer ym mhorthladdoedd y ddinas.

Addasiad gan Enid Morgan (Caneuon Ffydd Rhif 274 "*Ceisiwch yn gyntaf deyrnas ein Duw*") oedd emyn y plant yn yr oedfa, a'r "Haleliwia" o gytgan yn siwr o fod wedi ei glywed ar gopa'r Garth.

Roedd awduron y ddau emyn arall wedi eu geni yn sir Gaerfyrddin.
Emyn Nantlais, (Caneuon Ffydd Rhif 384 – "*Wele'r Athro mawr yn dysgu*") cyn y bregeth, ac emyn Elfed (Caneuon Ffydd Rhif 710 – "*Arglwydd Iesu dysg i'm gerdded*") i gloi.

Ganed Nantlais yng Ngwyddgrug, ger Pencader, a chyn mynd i'r weinidogaeth fe gafodd ei brentisio fel gwehydd. Ac er nad ydi fy ngwraig yn cofio rhyw lawer am yr achlysur, mae'n debyg mai ef a'i bedyddiodd hi!

Ym Mlaen-y-coed y ganed Elfed, ond fe dreuliodd draean o'i oes yn Llundain, a chofiaf fy nhad yn son am fynychu oedfaon yn ei eglwys, y Tabernacl, Kings Cross, yn ystod y cyfnod y bu'n gweithio yno cyn yr Ail Ryfel Byd.

Yn ôl ym Methlehem, ar y galeri, yn wynebu'r pwlpud, y mae cloc y capel, yn fwy hwylus i'r cennad gael gweld pryd i ddirwyn yr oedfa i ben, yn hytrach nag i'r gynulleidfa weld a yw'r bysedd wedi pasio hanner awr wedi unarddeg!

Ond ar stop ma hwnnw hefyd mwyach, ers 11:50, ia, deg munud i hanner dydd, yntau deg munud i hanner nos tybed?

Mae'n well gen i feddwl mai nes at yr hanner dydd yr ydym ar hyn o bryd, gan ein bod yn fwriad gennym, cyn iddi fynd yn rhy hwyr, i ail-agor drysau Bethlehem i gynnal oedfa ar Sul y 13eg o Fedi.

Bryd hynny, dan gyfarwyddyd y cyngor a dderbyniwyd oddiwrth Undeb yr Annibynwyr, y byddwn yn gwahodd teulu Bethlehem yn ôl i'r gorlan, a bydd Delwyn Sion yn arwain yr oedfa yn ei ffordd arbennig, ond arbennig o wahanol am y tro.

Bwriedir parhau i gynnal Ysgol Sul Rithiol i'r plant yn ystod yr wythnosau nesaf, gan ddilyn y patrwm a sefydlwyd yn ystod y misoedd cyn gwyliau haf.

Bydd gwybodaeth fanylach yn cael ei ddarparu yn fuan i'r aelodaeth ar yr union drefn y bydd yn angenrheidiol i ni ei mabwysiadu er mwyn cynnal oedfa dan gochl y "Gofid Mawr", ond ein dyhead ydi sicrhau diogelwch pawb, hyd eithaf ein gallu, o fentro i'n plith.

Rhown y gair olaf i Ifor Rees:-

"Athro da, O arwain ni
Yn ddiogel gyda thi;
Wrth dy ddilyn, gam a cham,
Ni ddaw inni unrhyw nam."
(C.Ff: Rhif 20)

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Croeso
Ers ychydig fisoedd mae Aled Williams a'i wraig Rosie a'r plant Annie a Nel wedi dychwelyd i Gymru o San Francisco ar ôl byw yno am nifer o flynyddoedd. Roedd Aled yn gweithio yno i gwmni Apple. Maent wedi ymgartrefu yn Salem ger Llandeilo. Mae Aled yn fab i Val a Steve Williams, Graigwen. Mae'r merched yn edrych mlaen i ddechrau yn Ysgol Teilo Sant ac wrth gwrs mae Tadcu a Mamgu yn falch o gael eu hwyresau yn agosach!

Achos dathlu
Dymuniadau hwyr i Delyth a Gareth Blainey, Graigwen wrth iddynt ddathlu eu Priodas Berl ym mis Gorffennaf.
Llongyfarchiadau i Siwan Francis, merch Dave a Margaret ar ei dyweddïad a Matthew Hayward, Creigiau. Pob hapusrwydd!

Mae Karyl a Chris Mann, Graigwen wedi croesawu eu hwyr cyntaf a wedi llwyddo i fynd i'w weld. Ganwyd Deio Ilar i Nerys ac Osian yn Dubai lle maent yn gweithio.

Croeso mawr i Nel Eleri, plentyn cyntaf Thomas Frowen a'i wraig Emily, Graigwen. Mae Nel yn wyres gyntaf i Gill a Paul Frowen, Priory Close, Graigwen.

Pen-blwydd hapus iawn i Delyth Davies, Cilfynydd sy'n dathlu cyrraedd oed yr addewid. Pob dymuniad da!

Clwb y Bont
Llongyfarchiadau i Menna Lewis, Graigwen sy'n derbyn gwobr o £100 o Glwb 200. Diolch i Colin Gregory am fod yng ngofal y gronfa hon ers nifer o flynyddoedd.

Mae aelodaeth y Clwb yn ddyledus erbyn diwedd mis Medi. Fe ddaw ffurflenni aelodaeth at yr aelodau presennol drwy'r post neu e-bost. Llawer o ddiolch am eich cefnogaeth barhaol yn enwedig dros y cyfnod anodd ers mis Chwefror.

Merched y Wawr
Mae sbel hir ers i'r gangen gwrdd ond maent am fentro i gael cyfarfod ar Zoom nos Fercher 9fed o Fedi am 7.00 p.m. i drafod y ffordd ymlaen ar gyfer y tymor newydd. Cysylltwch â Menna Lewis am fwy o wybodaeth.

Gwobrwyo
Llongyfarchiadau i Gethin Day, cyn ddisgybl Ysgol Pont Siôn Norton, am ennill gwobr NODA am ei berfformiad yn nrama 'Goodnight Mr.Tom' gyda Chwmni Hilltop ym Mhentyrch yn ddiweddar. Yn anffodus nid oedd seremoni wobrwyo oherwydd y cyfyngiadau ond gobeithio bydd cyfle iddo ddathlu cyn bo hir. Mae Gethin yn aelod o Adran Bro Taf.

Clwb Llyfrau
Mae'r aelodau wedi cwrdd ddwywaith ers y pandemig ac wedi llwyddo i drafod ystod eang o gyfrolau Cymraeg a Saesneg. Croeso i bawb i ymuno â ni bnawn Llun, Medi 7fed am 3.00 ar Zoom. Dyma'r linc - 76607150031 cyfrinair-5jR6mg. Cyfle i gyfrannu sylwadau ar unrhyw lyfr Cymraeg neu Saesneg rydych wedi darllen yn ddiweddar.

Newid Aelwyd
Pob hwyl i Huw, Janet a Ffion Caffrey yn eu cartref newydd yn Efail Isaf. Maent wedi bod yn byw gyda Bethan a Gerwyn yn Graigwen ers sbel tra eu bod nhw'n gweithio ar y tŷ.
Dymuniadau gorau i Huw Blainey a'i gariad, Josie yn eu cartref newydd yn Ffynnon Taf.

Croesi'r Afon
Mae'r bont gerdded wedi agor bellach yn croesi'r afon Taf o safle Llys Cadwyn yn syth mewn i Barc Ynysangharad.

Dymchwel
Mae'r gwaith ar fin dechrau i ddymchwel un o adeiladau eiconig y dref sef Y White Palace, gyferbyn â Gorsaf Pontypridd, a fu unwaith yn sinema boblogaidd ac wedyn yn neuadd fingo. Buodd yn wag am sawl blwyddyn ond â nifer o siopau bach yn dal i fasnachu o dan yr adeilad. Sgwn i beth ddaw yno yn ei le?

Y Sgrin Fach
Gwelwyd Gwen Griffiths, Maesycoed ar 'Heno' yn derbyn bocs o garedigrwydd gan Bridie Doyle o Bontypridd. Mae Citrus Arts wedi bod yn cydweithio gyda Gwasanaeth Les Henoed Ward y Rhondda i ddarparu bocsys i bobl sy wedi bod yn hunan-ynysu. Mae'r bocsys yn cynnwys llyfrau, posau, adnoddau crefft a garddio.

Buodd Eurgain Haf , Y Comin hefyd ar 'Heno' yn trafod rhinweddau crisialau. Mae nifer o bobl yn credu bod pŵer holistig ac egni yn dod o grisialau gan wella amrywiaeth o gyflyrau.

Tre Terfyn
gan Aled Lewis Evans

Gwasg Carreg Gwalch, £8.50

"Portread llachar a llawn afiaith o dref ar y ffin."
Menna Baines

Mae Aled Lewis Evans yn adnabyddus fel bardd yn ogystal ag awdur rhyddiaith, ond mae ei gyfrol ddiweddaraf yn pontio'r ddau gyfrwng mewn ffordd unigryw iawn.

Ond mae'r rhyddiaith hwnnw'n farddonol iawn ei natur, yn fath o lythyr caru i'r ardal y mae'n byw ac yn gweithio ynddi. Drwy ein tywys ar hyd strydoedd y dref a lonydd gwledig y cyrion mae'n creu portread byw a modern o ardal nad yw'n amlwg iawn yn ein llenyddiaeth gyfoes. O'r Stiwt, Saith Seren a'r capeli i ganolfan siopa Dôl yr Eryrod, y strydoedd a'r archfarchnadoedd, does unman yn osgoi ei chwyddwydr.

Y bobol yw'r sêr yn y gyfrol hon, a thrwyddyn nhw mae hanfod y dref yn cael ei amlygu. Mae'r cymeriadau yn amrywio o weinidogion a phobl capel i werthwyr y *Big Issue*, cariadon ifanc a'r rhai sy ar gyffuriau o gwmpas canol y dref – oll yn chwarae eu rhan yng ngwead y gymdeithas. Drwy gymeriadau fel Dot Twna a Bessie Bobolwmp cawn wledd o dafodiaith y Rhos, sy'n gyferbyniad trawiadol i fratiaith gyfoes a rhegfeydd slic Rum Lad, y llanc ifanc sy'n ei lordio hi o flaen Maccy D's. Hyn sy'n gwneud y gyfrol yn gredadwy, yn bictiwr o'r Gymru draddodiadol sy'n ceisio dal pen rheswm â datblygiad y byd ehangach.

Dyma lythyr caru o gyfrol; cân o fawl i ardal sydd yn ddwfn o dan groen yr awdur.

Wrth ein harwain ar hyd strydoedd Wrecsam a'r Rhos – Tre Terfyn ei ddychymyg – mae Aled Lewis Evans yn tynnu ein sylw at y gwych a'r gwachul; at Dot Twna a Bessie yn hel clecs am hwn a'r llall, at Rum Lad yn trio'i lwc, at Bronwen Traffig Warden wrth ei gwaith, at foi'r Big Issue a thorfeydd y Cae Ras. Mae pob haen o gymdeithas yn gwau trwy'i gilydd yma, fel mewn sawl cymuned ddwyieithog arall ledled Cymru.



Mae Aled Lewis Evans wedi byw yn Wrecsam ers 1971, wedi i'r teulu symud o'r Bermo. Dyma'i bumed gyfrol o ryddiaith greadigol i ddilyn *Ga i ddarn o awyr las heddiw?* (1991) *Rhwng Dau Lanw Medi* (1994) *Y Caffi* (2002) ac *Aur yn y Gwallt* (2004). Cyhoeddodd sawl cyfrol o farddoniaeth ers 1989, a llyfrau o natur ffeithiol a defosiynol. Mae'r gyfrol newydd hon, *Tre Terfyn*, yn waith y dyfarnodd Menna Baines Goron Eisteddfod Powys Dyffryn Banw iddo yn haf 2019. Yn 2019 hefyd enillodd Aled Dlws Cyfraniad Arbennig i Fyd Llyfrau gan Gwlwm Cyhoeddwyr Cymru. Ardal Wrecsam yw cefndir y gwaith newydd, ond Wrecsam gwahanol iawn i fyd Y Caffi a'r straeon byrion cynharach.

Mae *Tre Terfyn* ar werth ar y we drwy wefan y wasg, www.carreg.gwalch.cymru, gwefan y Cyngor Llyfrau, www.gwales.com a drwy'r post gan siopau llyfrau ledled Cymru.

'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf"

Ewyllysiau Cymraeg gan

Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar **ruthcjones25@aol.com**

(Aelod o Gymdeithas

Ysgrifenwyr Ewyllysiau)

Chwilio am Nani / Au pair

Mae ein teulu ni, sy'n byw ym Mro Morgannwg, yn chwilio am nani / au pair sy'n siarad Cymraeg i helpu i ofalu am ddau fachgen hapus, llawn egni sy'n 6 oed a 3 oed. Mae Dad yn siarad Cymraeg (a Mam-gu hefyd sy'n byw gerllaw) ond mae Mam yn ddi-Gymraeg ac felly rydym yn chwilio am rywun fydd yn siarad Cymraeg yn reddfol â'r plant. Mae'r ddau yn mynd i Ysgol Iolo Morganwg yn y Bont-faen ac yn hoffi sgwrsio, rhannu straeon a rhedeg yn yr ardd.

Mae Mam a Dad yn gweithio'n llawn-amser ac er bod y ddau ohonom yn gweithio gartref gan fwyaf, rydym yn teithio i Lundain yn rheolaidd. Oherwydd hynny, mae angen cefnogaeth ddibynadwy arnom cyn ac ar ôl ysgol drwy gydol yr wythnos.

Mae ein cartref yn le hapus a byddem yn croesawu rhywun hynaws ac ystyriol. Bydd y rôl yn cynnwys:

- Mynd â'r plant i'r ysgol a'u casglu, felly mae trwydded yrru lân yn angenrheidiol
- Tua 35 awr yr wythnos o ofal plant
- Byddai diwrnod arferol yn dechrau am 8am ac yn gorffen am 6pm, gyda oriau ysgol yn rhydd
- Gwarchod y plant gyda'r nos yn achlysurol

Mae bwthyn preifat, hunangynhaliol ym mhen draw ein gardd ni a byddem yn hapus i gynnig y bwthyn hwn fel llety parhaol os yw hynny'n ddeniadol, ond nid yw byw gyda ni yn amod angenrheidiol. Unwaith y byddwn wedi trafod a chytuno ar gyflog, bydd yn cael ei dalu drwy'r gwasanaeth Nannytax, ynghyd â phensiwn ac yswiriant.

Nid yw cymwysterau arbenigol yn hanfodol ond mae dod o hyd i rywun fydd yn gallu bod yn rhan o'n teulu ni yn hollbwysig. Bydd ein bechgyn ni'n mwynhau treulio amser gyda rhywun cynnes, cariadus sy'n llawn hwyl - os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch â ni!

Rob - 07552116511

Llongyfarchiadau i Aelwyd y Rhondda am greu Eisteddfod Rhithiol arbennig. Daeth dros 80 o gynigion i'r 11 cystadleuaeth a ddyfarnwyd ar youtube 24 - 28 Awst 2020.

Cystadleuaeth Unawd/ Deuawd/ Ensemble Sioe Gerdd.
Beirniad: Steffan Rhys Hughes
1af Rachel Lee Stephens.
2il Taylah James.
3ydd Seren Hâf

Llefaru Unigol 15oed neu iau. Beirniad: Gavin Ashcroft
1af Geraint Llywelyn Barnes.
2il Mari Fflur Thomas.
3ydd Hannah Edwards

Her 'Keepy-Uppies'. Beirniad: Macauley Cook.
1af Llion Gwyn Jones.
2il Gethin Duggan.
3ydd Morus Jones

Cystadleuaeth Y Gadair.
Beirniad Osian Owen. Thema: Protest
1af Prydydd Coch - Martin Huws.
2il Dyryn - Morgan Owen
3ydd Dyn yn y Mwgwd - Eryl Samuel

Dawns Teulu. Beirniad: Jên Angharad
1af Seren Hâf a Bryan Bowen
2il Cerys a Griff.
3ydd Jasmine a Daisy

Lip-Sync i Gân Gymraeg.
Beirniaid: Shelley Rees-Owen a Rhydian Bowen Phillips
1af Ellis Lloyd Jones.
2il Kelly Hanney
3ydd Seren Thomas

Llefaru Unigol (16oed neu'n hŷn)
Beirniad: Tudur Dylan Jones
1af Seren Hâf.
2il Kelly Hanney.
3ydd Rachel Lee Stephens

Llefaru i ddysgwyr.
Beirniad: Julie MacMillan
1af Ann Howells.
2il Tommy Church
3ydd Millie Barrett

Unawd lleisiol (15oed neu'n iau)
Beirniad: Wil Morus Jones
1af Elen Morlais Williams.
2il Efan Arthur Williams.
3ydd Megan Wyn Morris

Unawd / Deuawd Offerynnol
Beirniad: Rhiannon pritchard a Richard Vaughan
1af Lleucu ac Enlli Parri
2il Bethan Ford
=3ydd Lleucu Haf Thomas
=3ydd Soffia Nicholas

Celf. Beirniad: Siôn Tomos Owen
1af Carrie Francis
2il Kelly Hanney
3ydd Peter Spriggs

Eisteddfod y Rhondda
Cadair i'r Prydydd Coch

Mae bardd o Ffynnon Taf wedi ennill Cadair Eisteddfod y Rhondda. Hon oedd y tro cynta i'r Eisteddfod gael ei chynnal ac roedd y seremoni gadeirio ar Awst 28 ar Facebook.

Y bardd buddugol yw Martin Huws, Y Prydydd Coch, a'r gofynion eleni oedd cerdd neu gasgliad byr o gerddi yn y mesurau caeth neu rydd heb fod yn fwy na 35 o linellau ar y testun Protest. Noddwyr y gystadleuaeth oedd Cymdeithas Gymraeg Treorci.

'Mae'r gerdd am ddigwyddiadau greodd argraff fawr arna i pan o'n i yn y chweched dosbarth,' meddai Martin. 'Ar un adeg roedd 6,000 o fyfyrwyr yn herio 1,500 o gendarmes ar strydoedd Paris cyn i'r economi ddod i stop am fod 10 milwn o weithwyr ar streic.'

Dywedodd y beirniad, Osian Owen, fod 13 wedi cystadlu. 'Mae gan Y Prydydd Coch lais aeddfed a meistrolgar ac mae'r dweud yn eithriadol o grafog a'r defnydd o'r gynghanedd yn ddyfeisgar a hyblyg.

'Yn sicr, mae'r llinellau'n llorio'r darllenydd ar fwy nac un achlysur ac mae'n gerdd grefftus a gorffenedig, yn gerdd soffistigedig iawn. 'Llongyfarchiadau enfawr i'r Prydydd Coch.'

Mae Martin wedi ennill cadeiriau a choronau mewn eisteddfodau taleithiol a lleol ac wedi cyhoeddi dwy nofel a dwy gyfrol o straeon byrion. Fe ddaeth yn ail yng Nghystadleuaeth Gwobor Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint yn 2007 ac yn ail yn y Fedal Ryddaith yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn yn 2017.

Roedd yn un o ohebwyr cynta *Golwg* pan sefydlwyd y cylchgrawn yn 1988 cyn gweithio i'r *Western Mail*, *Y Byd ar Bedwar*, *Taro Naw* a *Cymru'r Byd*. Aeth i Ysgol Uwchradd Cathays yng Nghaerdydd ac mae ei ddyled yn fawr, meddai, i'r athro Cymraeg, Elvet Thomas, a'r athro Ffrangeg, Ted Poole.

Dyma'r gerdd fuddugol:

Protest
Mai 1968

Yn ein siacedi Wrangler trwsiadus
sychedwn am bob diferyn o'r stori
wrth lynu at sgrin.

Dwyfol yw'r sasparela ar dafod.
Sïa'r ddiod
fel nwy dagrau ar y Boulevard Saint Michel.

Lapia menyw ifanc ei chariad
yn amdo hen got law fochedd.
Ar ben mae ei byd. Cafodd ei fwrw'n bedwar.

Ai dig'wilydd yw de Gaulle?
Ddaw i ben ei fytholeg wrth i'w deyrnas wegian?

Uwchben Paris
llwythog yw'r nen wa'th wylo seiren syn.
Cyn gorffwys heria'r myfyrwyr y cŵn gorffwyll
a haid ddihidio
sy'n brysur fel tŷ'n ferw o bryfed.

Weithiau daw taranfollt,
penglogau'n gnau'n hollti.

Ninnau'n gwylio swigod ein delfrydiaeth
yn pefrio
yn ein gwydrau gloyw.

Ond bydd y tân yn is
pan fydd siapiau sinistr arholiadau'n nesáu.

Cofio Eisteddfod Aberteifi 1976

Yng nghanol mis Awst gofynnwyd i Penri Williams sôn am rinweddau pentref Pentyrch ar raglen Geraint Lloyd yn hwyr yn y nos. Nia Lloyd Jones fu'n cyflwyno'r rhaglen y noson honno ac ar ôl sôn am yr ardal aethom i hel atgofion am ffilm o Eisteddfod 1976 a ddangoswyd ar Corona yn ystod wythnos AmGen.

Roedd Eisteddfod Aberteifi yn enwog am nifer o ddigwyddiadau yn cynnwys helynt y gadair, y tywydd poeth - y llwch a'r gwynt, a Côr Godre'r Garth yn ennill y Gystadleuaeth i Gorau Gwledig neu Gapel am y Trydydd tro.

Dyma luniau o ffilm Penri -

Y Maes gwyntog llychllyd

Côr Aelwyd Caerdydd yn ymarfer

Côr Godre'r Garth yn cystadlu

Carey Williams, cyfeilydd Côr Godre'r Garth, ar lwyfan maes HTV

Dathlu yn Poppit dan oleuadau criw teledu

Baneri Yes Cymru yn Coedpenmaen

Dydd Sadwrn, 29 Awst, aeth cefnogwyr Yes Cymru i chwifio eu baneri ar font cerddwyr yng Nghoedpenmaen, Pontypridd, i annog cefnogaeth modurwyr. Cafwyd ymateb da iawn yn ôl pob sôn.

Prosiect Datblygu Mawr ym Mhontypridd

Cyn bo hir, bydd cynllun ailddatblygu mawr yn dechrau ym Mhontypridd. Bydd adeiladau'r hen Neuadd Bingo a chlwb nos Angharad's yn cael eu dymchwel yn dilyn cais llwyddiannus am gymorth grant gan Lywodraeth Cymru.

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi gweithredu drwy gaffael y safle er mwyn cyflymu'r adfywio strategol ehangach yn nhref Pontypridd. Mae ailddatblygu'r safle amlwg yma yn hanfodol ar gyfer twf yn y dyfodol a llwyddiant y dref.

Hergest yn Tafodau Teifi, yn hwyr nos Wener yn y Pafiliwn.

Y BRIFYSGOL AGORED - AMBELL ATGOF

Eleni mae'n hanner can mlynedd ers sefydlu'r Brifysgol Agored yng Nghymru gyda'r swyddfa ym Mhlas-y-Parc, Caerdydd yn agor ei drysau am y tro cyntaf ym mis Mai 1970. Roedd dau swyddog wedi cychwyn ar eu gwaith fis neu ddau ynghynt a chael lloches dros dro yng Nghofrestrfa Prifysgol Cymru ym Mharc Cathays. Y cyfarwyddwr - H Harford Williams - oedd un ohonynt. Yn frodor o Meidrim, Sir Gaerfyrddin roedd Harford (neu Haffi i'w gyfeillion) yn yr ysgol gyda'r cerddor William Matthias ac aeth i astudio bywydeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth gan ddatblygu ei ddiddordeb ym maes parasitoleg. Cyn ei benodi'n gyfarwyddwr roedd yn uwch ddarlithydd sŵoleg ym Mhrifysgol Aberdeen.

Am y misoedd cyntaf doedd ond llond dwrn o staff, ond ar ddechrau Medi cychwynnodd pedwar aelod newydd yn cynnwys Howard Thomas, a benodwyd yn uwch diwtor mewn mathemateg, a finne yn gyfarwyddwr cynorthwyol. Cynghorwyr hŷn oedd y ddau arall, adlewyrchiad o bwysigrwydd gwasanaeth cynghori yn ogystal ag addysgu ar gyfer myfyrwyr rhan amser. Ymhen rhai misoedd roedd cynghorwr hŷn arall wedi ei benodi sef Heddwyn Richards.

Mae enwau Howard a Heddwyn yn gyfarwydd i nifer o drigolion Pentyrch a Chreigiau. Symudodd Howard â'i deulu i Bentyrch ychydig flynyddoedd wedi ymuno â'r Brifysgol Agored ond yn ddiweddarach y daeth Heddwyn a Peg i fyw i'r Creigiau. Difyr nodi taw cymdogion Howard oedd Carol a Penri a darganfuwyd mewn byr o dro bod Howard wedi lletya gyda mam-gu Carol tra yn fyfyriwr yn Abertawe ac yn cofio Carol yn ferch fach yn dod i ymweld o bryd i'w gilydd!

Erbyn hyn mae'r ddau wedi ein gadael ac mae hiraeth mawr ar eu hôl.

Hyd yn oed cyn i mi gychwyn cefais brofiad cofiadwy o'r diddordeb yn y brifysgol. Awgrymodd Haffi y byddai'n syniad da i mi fynd i gyfarfod fin nos a oedd yn cael ei gynnal mewn neuadd ysgol yn y Rhondda. Euthum yno gan dybio taw tenau fyddai'r gynulleidfa. Er syndod, roedd y neuadd yn orlawn. Roedd y brwdfrydedd yn amlwg a'r cyfarfod yn debycach i oedfa diwygiad!

Er difrifoldeb y sefyllfa does gen i fawr ddim atgof o'r cyfnod agoriadol ddechrau 1971 pan fu'n rhaid i'r brifysgol oresgyn sialens streic y post a cheisio danfon deunydd gohebol i fyfyrwyr drwy ffyrdd amgen. Mae'n bur siŵr i'r costau teithio gynyddu'n sylweddol wrth i'r staff deithio i bob cornel o Gymru. Ar lefel bersonol cofiaf i Haffi, ychydig cyn y Nadolig, ofyn a fyddem yn fodlon rhoi lloches i'w aligator tra'r oedd y teulu i ffwrdd am rai dyddiau! Prysurodd i egluro nad oedd ond 14 modfedd o hyd ond y byddai'n rhaid ei gadw yn y bath. Ni fu'r drafodaeth gartre yn un hir a gwrthodwyd y cynnig! Dwn i ddim beth ddigwyddodd i'r aligator.

Gwahaniaethai natur a diwylliant swyddfeydd y rhanbarthau a'r rhanbarthau cenedlaethol gryn dipyn; hynny i raddau yn adlewyrchu cefndir a chymeriad y cyfarwyddwr yn ogystal â natur y rhanbarth. Mewn sawl rhanbarth prin y mynychai rhai o'r staff addysgol y swyddfa, gyda'r pencadlys ym Milton Keynes yn hytrach na'r rhanbarth yn ffocws eu teyrngarwch. Nid felly yng Nghymru, lle datblygodd naws gymunedol o'r cychwyn. Rhan o'r rheswm am hyn dybiwn i oedd bod nifer o'r staff yn Gymry alltud oedd wedi dychwelyd. Elfen bwysig arall oedd pwyslais Haffi ar greu naws golegol. Roedd pob cefnogaeth i'r rhai oedd am gychwyn neu barhau â'u hymchwil academaidd a chynhaliwyd rhaglen o seminarau yn flynyddol.

Un enghraifft o'r ysbryd cymunedol oedd sefydlu'r 'smokers' ar foreau gemau rygbi rhyngwladol. (Fe gofir bod y 70au yn amser da i ddilynwyr rygbi Cymru a chyfle cyson i ni gael hwyl am ben staff Milton Keynes.) Golygai hyn agor y swyddfa ar y Sadyrnau perthnasol. Mynychid y 'smokers' gan staff y swyddfa a'r rhai rhan amser gan roi cyfle nid yn unig i bawb gymdeithasu ond hefyd i hybu ymdeimlad o berthyn, elfen bwysig i'r rhai oedd yn gweithio'n rhan amser gan nad oedd cysylltiad arall heblaw'r post rhyngddynt a'r brifysgol. O bryd i'w gilydd byddai rhai o aelodau rhanbarthau eraill a Milton Keynes yn bresennol. Fodd bynnag, hyd y gwn, ni sefydlwyd cyfarfodydd tebyg yn un o'r rhanbarthau eraill.

Yn fy nghyfnod i symudodd y swyddfa dwywaith. Gadawyd Plas-y-Parc ym mis Awst 1973 a meddiannu'r 15fed llawr yn nhŵr y Pearl yn Heol y Brodyr Llwydion gyda'r wybodaeth gysurlawn nad oedd ysgol uchaf y gwasanaeth tân ond yn cyrraedd y 12fed llawr. Yna ym mis Medi 1979 symudwyd i adeilad newydd yng ngardd tŷ rhif 24 Heol y Gadeirlan. Roedd cryn dipyn mwy o le yn y swyddfa newydd gyda gofod i barcio ceir oddi tano. Fodd bynnag, ychydig fisoedd wedi symud digwyddodd llifogydd enbyd diwedd 1979 pan dorrodd y Taf ei glannau. Achubwyd y swyddfa ond dinistriwyd y boeleri a llenwyd y maes parcio gan ddŵr. Roedd hi'n adeg gwyliau ac felly dim ond ambell gar gafodd ei ddifrodi. Ond clywyd un yn grwgnach nad oedd wedi bod yn ddigon hirben i yrru ei hen recsyn i mewn i'r maes parcio pan oedd lefel y dŵr yn codi a thrwy hynny elwa ar ei bolisi yswiriant!

Un o fanteision swyddfa Heol y Gadeirlan oedd bod modd cynnal cyfarfodydd a dosbarthiadau ar gyfer myfyrwyr fin nos a'r penwythnos. Yn hyn o beth roedd yn gweithredu fel canolfan astudio ar gyfer ardal Caerdydd a'r cylch. Ym 1970 un o'r tasgau cyntaf oedd sefydlu rhwydwaith o'r canolfannau yma ar draws Cymru. Y gobaith oedd y gellid defnyddio ystafelloedd mewn sefydliadau addysgol a hynny am dâl isel. Ymatebodd awdurdodau lleol a cholegau addysg a thechnegol yn dra chadarnhaol a haelfrydig. Roedd rhai o golegau Prifysgol Cymru yn fwy gochelgar ond llwyddwyd i sicrhau llety ar gampws Aberystwyth a Bangor. Bangor hefyd fu lleoliad yr ysgol haf gyntaf a gynhaliwyd yng Nghymru ym 1971 - ysgol i fyfyrwyr gwyddoniaeth a mathemateg. Mae straeon am weithgareddau allgyrsiol ysgolion haf y Brifysgol Agored yn rhan o chwedloniaeth y brifysgol ond gwell tewi am hynny.

Fel yr awgrymwyd yn y paragraff blaenorol bu'r ymateb yng Nghymru i ddyfodiad y Brifysgol Agored yn gadarnhaol gyda thipyn o chwilfrydedd ynghylch y modd y datblygai. Fodd bynnag yng Nghymru wynebai'r brifysgol sefyllfa nad oedd yn bodoli mewn unrhyw ran arall o Brydain sef bod addysg prifysgol yn nwylo un sefydliad. O ganlyniad digwyddodd y gwaith o sefydlu trefn addysgol a gweinyddol yn hwyrach yng Nghymru nag yng ngweddill Prydain. Y rheswm oedd bod Prifysgol Cymru am wybod sut y bwriadai'r Brifysgol Agored weithredu yn y wlad a pha orgyffwrdd gallai ddatblygu yn sgil hynny. Daethpwyd i gyd-ddealltwriaeth a sefydlwyd pwyllgor ymgynghorol rhwng y ddwy brifysgol i drafod pynciau oedd yn gyffredin, â'r pwyllgor i gyfarfod yn flynyddol. Un canlyniad fu cytuno taw Prifysgol Cymru oedd â'r cyfrifoldeb am raddau allanol drwy'r Gymraeg. Er nad oedd y fath ddarpariaeth ar gael ar y pryd mae'n ddigon posibl i'r cytundeb hybu'r ymgyrch i sefydlu'r radd allanol maes o law.

Parhad ar dudalen 15 >

Y Brifysgol Agored
(parhad o dudalen 14)

Wrth gwrs roedd amheuon yn parhau. Cofiaf, a minnau wedi mynd i siarad am y brifysgol yn ardal fy mebyd, i'r cadeirydd - prifathro'r ysgol uwchradd lle bûm yn ddisgybl - ddatgan yn groyw na ellid ystyried y sefydliad yn brifysgol 'go iawn' oherwydd na fyddai'r myfyrwyr yn derbyn profiad preswyl. Ym marn un darlithydd efrydiau allanol, doedd y brifysgol ddim yn cynnig addysg oedolion mewn gwirionedd oherwydd bod pob cwrs yn arwain at gymhwyster. Felly doedd e' ddim yn 'addysg da i ddim'. A chofiaf i gydnabod, o wybod mod i wedi dod nôl i Gymru i weithio, ofyn ' Pam y gwnest ti ymuno â'r giwed yna!'

O'r cychwyn roedd nifer o aelodau'r swyddfa yn awyddus i sicrhau presenoldeb y brifysgol yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cafwyd cytundeb gan gychwyn gydag Eisteddfod Bangor ym 1971. Yn yr eisteddfod honno penderfynwyd cynnal cystadleuaeth cyfansoddi englyn. Derbyniwyd nifer dda o englynion a chafwyd beirniadaeth ar ddiwedd yr wythnos. Does gen i ddim cof pwy oedd y beirniad ond yr enillydd oedd Dic Jones gyda'r englyn canlynol:

Agored ysgol gwerin - i danio
Doniau'r dyn cyffredin.
Daeth y coleg i'r gegin
A chwrs gradd i chi ar sgrin.

Rai blynyddoedd wedyn arysgrifwyd yr englyn ar gerflun llechfaen a gomisiynwyd oddi wrth Ieuan Rees a'i osod yng nghyntedd y swyddfa yn Heol y Gadeirlan.

Dichon taw un o ddigwyddiadau cyhoeddus hynotaf y Brifysgol yw'r seremoni gradd lle gwelir plant yn dod i ddathlu dyfarniad gradd i riant neu fam-gu neu dad-cu. Erbyn canol y 70au roedd seremonïau yn cael eu cynnal ledled Prydain gan gynnwys Caerdydd. Mae'r seremonïau hefyd yn gyfle i'r Brifysgol i gyflwyno graddau er anrhydedd ac mae gennyf atgof arbennig o seremoni 1980 pan gafodd Heddwyn a minnau'r cyfle i gyflwyno dau Gymro. Stephen Stephens yn achos Heddwyn, gŵr a fu'n weithgar dros y blynyddoedd yn paratoi'r slipiau papur oedd yn sylfaen i Eiriadur Prifysgol Cymru, a hynny'n gwbl wirfoddol. (Roedd hefyd yn dod o Faesybont sylwer!). Minnau wedyn yn cyflwyno Gwilym Roberts am ei waith ysbrydoledig gyda chenedlaethau o ddysgwyr. Yn naturiol roedd ein cyflwyniadau yn ddwyieithog, gweithred oedd yn achosi ychydig ddryswch i uchel swyddogion y brifysgol. Fodd bynnag wedi peth holi ni fu unrhyw wrthwynebiad a chawsom rwydd hynt.

Ar y cychwyn canolbwyntio ar gyrsiau gradd wnaeth y Brifysgol. Fodd bynnag yn y man dechreuwyd paratoi cyrsiau nad oedd yn arwain at radd ac un o'r rhai cyntaf oedd y *Pre-school Child* ar gyfer athrawon cylchoedd meithrin a rhieni. Yn syth gwelodd Heddwyn y posibilrwydd o drosi'r cwrs i'r Gymraeg. Doedd y cytundeb gyda Phrifysgol Cymru ynghylch pwy oedd i baratoi cyrsiau allanol drwy'r Gymraeg ddim yn weithredol o safbwynt y math yma o gwrs. Felly trafododd Heddwyn y syniad gyda Mudiad Ysgolion Meithrin a chafodd gefnogaeth barod. Doedd hyn ond dechrau'r daith ond fel ci ag asgwrn ni phylodd brwdfrydedd Heddwyn. Talodd ei ddyfalbarhad ar ei ganfed oherwydd yn y diwedd ymddangosodd cwrs y Plentyn Bach, y cwrs cyntaf Cymraeg i'w gyflwyno gan y Brifysgol Agored.

Mae rhyw 36 mlynedd ers i mi adael y Brifysgol Agored ac mae'r cof yn pylu. Serch hynny rwy'n hynod ddiolchgar am y cyfle ges i gan y brifysgol i newid cyfeiriad, i fod yn rhan o arbrawf newydd ym myd addysg ac i ymuno â chyfeillach sydd wedi parhau hyd heddiw.

Rowland Wynne Awst 2020

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yn y Western Mail (Awst 15) darllenais gyhoeddiad marwolaeth. Dyma ran o'r cyhoeddiad

Capten Jan Borysiewicz

Yn dawel yng Nghartref Yr Hafod, Aberteifi, Ddydd Sul, Awst 9,2020 Capten Jan, gynt o 8 Heol-y Graig, Aberporth a 7 Ball Road , Llanrumney, Caerdydd yn 101 mlwydd oed. Priod annwyl y ddiweddar Zofia, tad cariadus Leszek a Lilianna, tad- yng - nghyfraith barchus Gwenllïan a Dafydd, tad-cu tyner…..hendadcu hoffus…..

Beth yw'r diddordeb yma i mi? Y cyfenw yn bennaf i gychwyn a'r cyfeiriad at Lanrumney yng Nghaerdydd. Flynyddoedd yn ôl pan oeddwn yn ymchwilio i hanes gwyddonwyr Cymru cefais sgwrs gyda chyn-gydweithiwr, Gareth Evans, a holi am ei brofiad yn bennaeth gwyddoniaeth yn Ysgol Uwchradd Caerdydd (Cardiff High). Dwedodd Gareth, 'y disgybl disgleiriaf a ddysgais erioed oedd Leszek Borysiewicz; doedd neb yn gallu dweud ei enw'n iawn, felly 'Les' oedd e' i bawb. Roedd e'n byw yn Llanrumney, ymhlith cymdeithas o Bwyliaid'.

Wrth ddarllen am farw Jan, meddyliais, 'Tybed?' Does gen' i ddim tystiolaeth sicr, ond mae'r tebygolrwydd yn drawiadol.

Dirgelwch arall yw pam mae'r cyhoeddiad yn y Western Mail yn y ddwy iaith. O ble daeth y Gymraeg? Tybiaf fod hyn wedi dod o Gwenllian (gwraig Les) a Dafydd, brawd Gwenllian.

A derbyn bod fy nyfaliadau yn gywir, beth yw hanes Leszek ar ôl Ysgol Uwchradd Caerdydd? Graddiodd yn feddyg yng Nghaerdydd; nid oedd ganddo ddiddordeb mewn dilyn cyrsiau yn Oxbridge neu efallai nad oedd ei fagwraeth gartref yn hybu hynny. O hynny ymlaen fe ddisgleiriodd mewn sefydliadau enwog yn Lloegr ac ennill anrhydeddau lu. Ei swydd cyn ymddeol oedd Is-Ganghellor Prifysgol Caergrawnt. Yn 2001 dyrchafwyd ef yn farchog, yn gydnabyddiaeth o'i waith ymchwil nodedig ar frechlynnau (vaccines). Tybed a ydy'r ymdrechion sy'n cael eu cynnal yn y cyfnod anodd hwn parthed brechlyn yn erbyn Covid-19 yn defnyddio gwaith Leszek o Lanrymni?

Mae rhifyn 93 o Advances Wales wedi cyrraedd, ar-lein yn unig am y tro. Da gweld bod nifer o sefydliadau yng Nghymru yn cynnal gwaith ymchwil i agweddau ar natur Covid-19 a dulliau o wrthsefyll. Gwelais gyfeiriadau at ymdrechion ym Mhrifysgolion Bangor, Abertawe, De Cymru, yn aml mewn cydweithrediad gyda diwydiannau. Diddorol oedd darllen am waith y cwmni OrthoClinical Diagnostics ym Mhenybont.

Neville Evans

Canolfan Garth Olwg

CROESO NÔL!

Ymrestrwch ar nifer o gyrsiau ar gael yn y Ganolfan neu ar y wê. Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth.

loga

gyda Amanda Powell
Pob Nos Lun
6-7pm
£4

Yn ail-gychwyn 14/09/2020

Am restr lawn o gyrsiau ewch i

garth-olwg.cymru